



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal – trosglwyddo i fodel nid-er-elw

Adroddiad 2 - Tachwedd 2025

Cynnwys

	Tudalen
Cyflwyniad a strwythur yr adroddiad a'r camau nesaf	3
Crynodeb o'r adroddiad	6
Adran 1 – Nifer y gwasanaethau, lleoedd ac aelwydydd cofrestredig i blant ar gyfer gofal preswyl, maethu a llety diogel	9
Adran 2 – Ymunwyr â'r farchnad ac ymadawyr â'r farchnad – Cartrefi plant	17
Adran 3 – Ymunwyr â'r farchnad ac ymadawyr â'r farchnad – Maethu	23
Adran 4 – Sefydlogrwydd Lleoedd	29
Adran 5 – Cynigion Eiriolaeth	31

Cyflwyniad

- i. Cyhoeddodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ei adroddiad Cyfnod 1 ar y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) ar y pryd ar 11 Hydref 2024. Nododd Argymhelliad 9 o'r adroddiad hwnnw:

Dylai'r Gweinidog baratoi a chyhoeddi adroddiad ar y cynnydd o ran trosglwyddo i'r model nid-er-elw. Dylai hyn gynnwys diweddariad, yn ôl awdurdod lleol, ar nifer y lleoedd sy'n ymadael â'r farchnad a nifer y lleoedd newydd a grëwyd, a dylai fyfyrio ar sefydlogrwydd y lleoedd presennol. Dylai hefyd gynnwys manylion yr ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc y mae'r Bil yn effeithio'n uniongyrchol arnynt a'r niferoedd sy'n manteisio ar y cynnig gweithredol o eiriolaeth. Dylid gwneud hyn bob chwe mis, gan ddechrau o ddyddiad dadl Cyfnod 1.

- ii. Derbyniodd y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol yr argymhelliad hwn ac ymrwymodd i gyhoeddi adroddiad ar gynnydd bob chwe mis. Cafodd adroddiad y chwe mis cyntaf [ei gyhoeddi ym mis Mai 2025](#) a nodi'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2025 lle mae ar gael. Dyma'r ail o'r adroddiadau hyn ac mae'n nodi'r sefyllfa ar 30 Medi 2025, lle mae data wedi'i ddiweddarau ar gael. Bwriedir i'r trydydd adroddiad gael ei gwblhau ym mis Mai 2026.

Strwythur yr adroddiad

- iii. Yn unol â strwythur yr adroddiad cyntaf, mae'r adroddiad hwn wedi'i rannu yn yr un adrannau, gan ddechrau gyda chrynodeb o ganfyddiadau'r adroddiad a chan nodi'r camau nesaf. Lle bo modd, mae data am gartrefi plant a data maethu wedi'i rannu'n batrymau lleol a daearyddol ar draws y mathau canlynol o ddarpariaeth:

Darpariaeth nid-er-elw	Darpariaeth er-elw
Yn cael ei rhedeg gan yr Awdurdod Lleol (Awdurdod Lleol)	(nid yw'r data hwn wedi'i ddadansoddi yn ôl math penodol o ddarpariaeth er-elw)
Sefydliadau nid-er-elw eraill (nad ydynt yn Awdurdod Lleol)	

- iv. O ran 'nid-er-elw arall' rydym wedi penderfynu mai darpariaeth sy'n gweithredu o dan un o'r pedwar model gweithredu cydnabyddedig a nodir o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 ("Y 2025 Ddeddf"), yn benodol y rhai sydd naill ai:

- yn gwmni elusennol cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau,
- yn sefydliad elusennol corfforedig,
- yn gymdeithas gofrestredig elusennol, neu
- yn gwmni buddiant cymunedol cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau

- v. Mae'r ddarpariaeth yn cael ei mesur o ran nifer y gwasanaethau a'r lleoedd (uchafswm capasiti pob gwasanaeth) sydd wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Cyflwynir data maethu hefyd o ran aelwydydd, lle y mae ar gael.
- vi. Mae Adran 1 yn rhoi trosolwg o'r sector yng Nghymru ar 30 Medi 2025 gan gynnwys nifer y gwasanaethau cartrefi plant, gwasanaethau maethu a gwasanaethau llety diogel, wedi'u dadansoddi yn ôl math o ddarparwr (awdurdod lleol nid-er-elw, darparwyr nid-er-elw eraill neu er-elw) yn ôl bwrdd partneriaeth rhanbarthol ac ardal awdurdod lleol. Dyma'r tri math o wasanaeth y bydd angen iddynt gael eu darparu gan awdurdodau lleol neu ddarparwyr nid-er-elw eraill pan fydd gweithredu y 2025 Ddeddf wedi'i gwblhau.
- vii. Mae adran 2 yn ymdrin ag ymunwyr â'r farchnad ac ymadawyr â'r farchnad ar gyfer gwasanaethau cartrefi plant ac mae adran 3 yn ymdrin â'r un data ar gyfer gwasanaethau maethu. Mae'r adroddiad wedyn yn myfyrio ar sefydlogrwydd lleoedd plant sy'n derbyn gofal yn adran 4 gan gloi gyda data ar y defnydd o'r cynnig o eiriolaeth statudol yn adran 5.

Cyflwyno data- datblygiadau ers Adroddiad 1

- viii. Fel gyda'r adroddiad cyntaf, mae'r adroddiad hwn yn cynnwys data gan AGC, Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant (4C's), Maethu Cymru a Llywodraeth Cymru. Er hynny, ar gyfer yr ail adroddiad hwn sefydlwyd pwynt adrodd cyffredin (sef 30 Medi 2025) rhwng AGC, Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant a Maethu Cymru, gan gynorthwyo cymhariaeth. At y dyfodol, dylai fod modd cynnal pwynt adrodd cyffredin rhwng y sefydliadau hyn ar gyfer fersiynau o'r adroddiad yn y dyfodol. Mae data Llywodraeth Cymru (a gynhwysir yn adrannau 4 a 5) yn dal i gael ei gyflwyno fel yr oedd ar 31 Mawrth 2024. Er hynny, cynhwysir naratif wedi'i ddiweddarau yn yr adrannau hyn sy'n rhoi cyd-destun ychwanegol a chynlluniau ar gyfer data wedi'i ddiweddarau i'w gynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol.
- ix. Yn ogystal â sefydlu pwynt adrodd cyffredin, mae data ychwanegol ar gael hefyd ar gyfer yr adroddiad hwn, yn benodol data maethu ynghylch aelwydydd a lleoedd gofal maeth cofrestredig. Mae hyn wedi'i nodi yn Nhabl 1b. Mae dadansoddiad pellach o aelwydydd a lleoedd maethu awdurdodau lleol yn ôl darpariaeth brif ffrwd a darpariaeth gan bersonau cysylltiedig (perthnasoedd) hefyd wedi'i gynnwys yn Nhabl 1c. Mae tablau 3a i 3b yn dangos maethu marchnad yn mynd i fyny ac allanfa (yn ôl aelwydydd a lleoedd prif ffrwd a phersonau cysylltiedig). Mae data ar gyfer asiantaethau maethu annibynnol (AFAs) sy'n ymuno â'r farchnad ac yn ymadael â'r farchnad ar gael ar hyn o bryd ar lefel aelwydydd yn unig, nid yn ôl lle. Darperir hyn yn nhabl 3c.

- x. Ar gyfer yr adroddiad hwn a chyhoeddiadau yn y dyfodol, rydym wedi penderfynu cyflwyno data yn ôl ardal bwrdd partneriaeth rhanbarthol, lle bo modd, yn ogystal ag yn ôl ardal awdurdod lleol. Mae hyn yn caniatáu i dueddiadau rhanbarthol ychwanegol gael ei nodi a'u dadansoddi.
- xi. Mewn nifer bach o achosion mae data ar gyfer lleoedd cartrefi plant yn cynnwys gwasanaethau sydd ag ysgolion mawr sydd wedi'u cofrestru gan Estyn ar y safle. Nid yw'r lleoliadau hyn ar gael i bob plentyn sy'n derbyn gofal a byddent yn cael eu paru â phroffil penodol o blant. Felly, gall y capasiti cofrestredig a ddangosir gan yr awdurdod lleol lletyol ymddangos ychydig yn uwch na'r argaeledd gwirioneddol at ddibenion comisiynu.
- xii. Er bod ffocws yr adroddiad hwn yn mesur symudiad yn y farchnad trwy ddata meintiol, mae'n bwysig nodi bod cyd-destun ansoddol ehangach y cartrefi cywir, sydd ar gael ar yr adeg iawn, i ddiwallu anghenion plant, yn awr ac yn y dyfodol, yn hanfodol i gyflawni nid yn unig niferoedd digonol ond hefyd darpariaeth ddigonol sy'n canolbwyntio ar blant a chanlyniadau.
- xiii. Ar hyn o bryd mae anghysondeb o ran darpariaeth gofrestredig ar draws pob math o leoliad i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc. Mae arolygiadau graddedig AGC o fis Ebrill 2025 yn dangos ar y cyfan fod ansawdd y ddarpariaeth gofrestredig, yn ôl pob math o ddarparwyr, yn dda, ond mae gormod o ddarpariaeth nad yw'n cael ei thargedu'n gywir at ddiwallu anghenion presennol plant sy'n derbyn gofal. Mae'r Awdurdodau Lleol yn parhau i weithio gyda'r holl ddarparwyr i leihau'r bwlch hwn ac i wella digonolrwydd. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â darparwyr ar y proffil anghenion yng Nghymru; mae'r dadansoddiad diweddaraf o hyn gan Gonsortium Comisiynu Cymru ar gyfer Plant i'w weld [yma](#). Mae hyn yn cynnwys ystod o astudiaethau achos sy'n dangos yr effaith uniongyrchol ar brofiadau gofal plant.

Y Camau Nesaf

- xiv. Bwriedir cwblhau'r adroddiad nesaf erbyn mis Mai 2026 a, bydd yn cynnwys data hyd at 31 Mawrth 2026 lle bo hynny ar gael.

Crynodeb o'r adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth fanwl am nifer y gwasanaethau, lleoedd ac aelwydydd cofrestredig ar gyfer cartrefi gofal plant, gwasanaethau maethu a gwasanaethau llety diogel yng Nghymru. Mae'n cynnwys hefyd adrannau ar sefydlogrwydd lleoedd a'r nifer sy'n manteisio ar wasanaethau eiriolaeth. Mae pwyntiau allweddol o'r data wedi'u nodi isod (drwy gydol yr adroddiad mae canrannau yn cael eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf).

1. Ar 30 Medi 2025, mae 375 o wasanaethau cartrefi plant wedi'u cofrestru yng Nghymru sy'n cynnig uchafswm o 1,291 o leoedd. Mae'r ddau yn dangos cynnydd ar y ffigurau yn yr adroddiad blaenorol ar 31 Mawrth 2025. Mae darpariaeth er-elw yn dal i gyfrif am dros dri chwarter o'r holl leoedd cartrefi plant.

- Yn ôl rhanbarth, mae'r nifer mwyaf o wasanaethau cartrefi plant (85 neu 23% o'r ffigur cenedlaethol) a lleoedd (306 neu 24% o'r ffigur cenedlaethol) yng Ngogledd Cymru. Mae'r gyfran ranbarthol fwyaf o wasanaethau cartrefi plant er-elw i'w chael yng Ngorllewin Morgannwg (45 o 47 o wasanaethau neu 96% a 173 o 177 o leoedd, neu 98%).
- O fewn ardaloedd yr awdurdodau lleol, cofnodwyd y gyfran fwyaf o wasanaethau a lleoedd cartrefi plant er-elw yng Nghastell-nedd Port Talbot a Thorfaen. Roedd yr holl ddarpariaeth breswyl yn yr ardaloedd hyn yn gweithredu ar sail er-elw ar 30 Medi 2025. I'r gwrthwyneb, nid oedd gan Geredigion unrhyw wasanaethau cartrefi plant er-elw wedi'u cofrestru, er ei bod hefyd yn cynnwys y nifer cyffredinol isaf o wasanaethau (2) a lleoedd (9) yng Nghymru.

2. Mae cyfran sylweddol o ymunwyr â'r farchnad cartrefi plant yn parhau i fod yn 'er-elw' er bod nifer yr ymunwyr nid-er-elw wedi cynyddu.

- Mae data rhwng 1 Ebrill 2025 a 30 Medi 2025 yn dangos bod 21 o'r 32 o wasanaethau cartref plant (66%) a 61 o'r 98 o leoedd (62%) a gofrestrwyd gan AGC yn rhai er-elw. Roedd yr 11 gwasanaeth arall (a 37 lle) wedi'u cofrestru naill ai i awdurdod lleol neu ddarparwyr nid-er-elw eraill. Mae hyn yn gynydd ar y 4 gwasanaeth nid-er-elw (a 5 lle) a gofrestrwyd yn ystod y cyfnod blaenorol o 6 mis.
- Yn ystod y cyfnod adrodd hefyd ymadawodd 7 gwasanaeth cartrefi plant (a 17 lle) â'r farchnad, pob un ohonynt yn rhai er elw. Mae hyn yn cymharu â'r cyfnod blaenorol o 6 mis, a welodd 4 gwasanaeth cartrefi plant er-elw, ochr yn ochr â 7 lle er-elw a 4 lle nid-er-elw.

- Cofnododd Gwent y twf rhanbarthol uchaf yn nifer y gwasanaethau a lleoedd cartrefi plant cofrestredig gyda 13 o wasanaethau a chyfanswm o 42 o leoedd. Roedd yn darparu 4 (44%) o'r 9 gwasanaeth ledled Cymru a oedd newydd eu cofrestru gan yr awdurdodau lleol a 19 (59%) o'r 32 lle a oedd newydd eu cofrestru. Cofnododd Gwent hefyd 9 (neu 43%) o bob un o'r 21 o wasanaethau er-elw a 23 (neu 38%) o'r 61 o leoedd er-elw a gofnodwyd ledled Cymru.
- Powys oedd yr unig ardal i ddangos gostyngiad net mewn lleoedd cartrefi plant dros y cyfnod adrodd hwn, gyda 5 lle wedi'u cofrestru, a 7 lle wedi'u datgofrestru. Roedd y 7 lle wedi'u datgofrestru i gyd yn ddarpariaeth er-elw.

3. Ar 30 Medi 2025, mae 44 o wasanaethau maethu wedi'u cofrestru yng Nghymru sy'n cynnig 3,538 o aelwydydd maethu a 6,123 o leoedd maethu. Mae'r mwyafrif o aelwydydd a lleoedd maethu yng Nghymru yn cael eu gweithredu gan sefydliadau nid-er-elw.

- O'r 44 o wasanaethau maethu cofrestredig yng Nghymru, mae 22 yn cael eu gweithredu gan awdurdodau lleol. Darperir y gweddill gan Asiantaethau Maethu Annibynnol (AFAs). O'r rheini, mae 5 yn sefydliadau nid-er-elw ac mae 17 yn sefydliadau er-elw. O'r 3,538 o aelwydydd maethu, mae 2,545 (neu 72%) yn cael eu darparu gan yr awdurdodau lleol. O'r 6,123 o leoedd maethu, mae 4,027 (neu 66%) yn cael eu darparu gan awdurdodau lleol. Mae cyfran sylweddol o'r aelwydydd (1,079 neu 42%) a'r lleoedd (1,560 neu 39%) a ddarperir gan yr awdurdodau lleol o fewn gofal maeth gan berthynas neu 'bersonau cysylltiedig'. Mae'r 1,466 o aelwydydd a'r 2,467 o leoedd sy'n weddill yn darparu gofal maeth prif ffrwd.
- O ran aelwydydd a lleoedd AFA, darperir 815 o aelwydydd (23%) a 1732 o leoedd (28%) gan sefydliadau er-elw, darperir 178 (5%) o leoedd a 364 (6%) o leoedd gan sefydliadau nid-er-elw eraill.
- Yn ôl rhanbarth, Gogledd Cymru sydd â'r nifer uchaf o aelwydydd maethu 771 (22%) yng Nghymru ond mae'r nifer uchaf o leoedd i'w cael yng Ngwent gyda 1,264 o leoedd (neu 21% o'r holl ddarpariaeth). O fewn ôl troed awdurdod lleol, cafwyd y crynodiad mwyaf o ddarpariaeth faethu yng Nghaerdydd. Cofnododd yr ardal 358 o aelwydydd (10% o'r ffigur cenedlaethol) a 707 o leoedd (12% o'r ffigur cenedlaethol). Mae gan Gaerdydd hefyd 109 o aelwydydd (13%) a 244 (14%) o leoedd er-elw. Roedd Sir Gaerfyrddin hefyd yn cynnwys llawer o ddarpariaeth er-elw, gyda 75 (neu 9%) o aelwydydd a 164 (neu 10%) o leoedd. Yn y cyfamser, nid oes gan Sir y Fflint a Wrecsam unrhyw ddarpariaeth AFA nid-er-elw yn eu hardaloedd.

- Bu gostyngiad net (cyfanswm o 19, 7 ohonynt yn AFAs) mewn aelwydydd maethu prif ffrwd nid-er-elw dros y cyfnod adrodd. Bu cynnydd (o 21) mewn aelwydydd maethu prif ffrwd er-elw yn yr un cyfnod.

Adran 1 - Nifer y gwasanaethau, lleoedd ac aelwydydd cofrestredig i blant ar gyfer gofal preswyl, maethu a llety diogel

Tabl 1a: Nifer y gwasanaethau cartrefi plant cofrestredig ac uchafswm y lleoedd cofrestredig (ar 30 Medi 2025)

Ffynhonnell: AGC

	Nifer y gwasanaethau cartrefi plant cofrestredig				Nifer yr uchafswm lleoedd cofrestredig yng nghartrefi plant			
Rhanbarthol ac Awdurdod Lleol	Nid-er-elw (Awdurdod Lleol)	Nid-er-elw (Arall)	Er-elw	Cyfanswm	Nid-er-elw (Awdurdod Lleol)	Nid-er-elw (Arall)	Er-elw	Cyfanswm
Caerdydd a'r Fro	10	1	28	39	27	2	116	145
Caerdydd	10	0	15	25	27	0	68	95
Bro Morgannwg	0	1	13	14	0	2	48	50
Cwm Taf Morgannwg	16	2	46	64	50	2	145	197
Pen-y-bont ar Ogwr	5	2	15	22	19	2	45	66
Merthyr Tudful	2	0	9	11	3	0	26	29
Rhondda Cynon Taf	9	0	22	31	28	0	74	102
Gwent	19	0	65	84	71	0	182	253
Blaenau Gwent	1	0	17	18	4	0	42	46
Caerffili	7	0	9	16	21	0	30	51
Sir Fynwy	2	0	12	14	9	0	39	48
Casnewydd	9	0	12	21	37	0	39	76
Torfaen	0	0	15	15	0	0	32	32
Gorllewin Cymru	6	1	26	33	22	6	93	121
Sir Gaerfyrddin	3	0	17	20	13	0	56	69
Ceredigion	1	1	0	2	3	6	0	9
Sir Benfro	2	0	9	11	6	0	37	43
Gogledd Cymru	16	0	69	85	51	0	255	306
Conwy	3	0	8	11	15	0	27	42
Sir Ddinbych	0	0	10	10	0	0	47	47
Sir y Fflint	5	0	21	26	12	0	68	80
Gwynedd	1	0	6	7	6	0	39	45
Wrecsam	3	0	22	25	11	0	67	78
Ynys Môn	4	0	2	6	7	0	7	14
Gorllewin Morgannwg	2	0	45	47	4	0	173	177
Castell-nedd Port Talbot	0	0	21	21	0	0	83	83
Abertawe	2	0	24	26	4	0	90	94
Powys	5	3	15	23	13	10	69	92
CYFANSWM	74	7	294	375	238	20	1,033	1,291

Tabl 1a - Esboniad data

- 1.1. Mae Tabl 1a yn dangos cyfanswm o 375 o wasanaethau cartrefi plant cofrestredig yng Nghymru ar 30 Medi 2025. Gyda'i gilydd mae'r rhain yn darparu hyd at 1,291 o leodd cofrestredig. Darperir y rhan fwyaf o'r gwasanaethau (294 neu 78% o'r holl wasanaethau cartrefi plant) a lleodd (1,033 neu 80% o'r holl leodd cartref plant) gan ddarparwyr er-elw.

Tabl 1b: Nifer y gwasanaethau maethu cofrestredig, aelwydydd gofal maeth ac uchafswm y lleoedd cofrestredig (ar 30 Medi)

Ffynonellau:

1 Gwasanaethau Cofrestredig – AGC, **2** Aelwydydd a lleoedd Awdurdodau Lleol – Maethu Cymru

3 Aelwydydd a lleoedd nad ydynt wedi'u cofrestru gydag awdurdodau lleol - Consortïwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant

Rhanbarth ac ardal awdurdod lleol	Nifer y gwasanaethau gofal maeth cofrestredig			Nifer yr aelwydydd gofal maeth cofrestredig			Uchafswm nifer y lleoedd gofal maeth		
	Nid-er-elw (Awdurdod Lleol)	1 Nid-er-elw (Arall)	1 Er-elw	2 Nid-er-elw (Awdurdod Lleol)	3 Nid-er-elw (Arall)	3 Er-elw	2 Nid-er-elw (Awdurdod Lleol)	3 Nid-er-elw (Arall)	3 Er-elw
Caerdydd a'r Fro	2	3	4	343	40	151	567	86	340
Caerdydd	1	3	4	222	28	109	404	61	244
Bro Morgannwg	1	0	0	121	12	42	163	25	96
Cwm Taf Morgannwg	3	0	1	410	43	135	669	91	286
Pen-y-bont ar Ogwr	1	0	0	126	9	63	175	17	135
Merthyr Tudful	1	0	0	43	1	10	81	4	20
Rhondda Cynon Taf	1	0	1	241	33	62	413	70	131
Gwent	5	1	1	564	45	119	934	86	246
Blaenau Gwent	1	0	0	74	8	12	124	12	22
Caerffili	1	1	0	145	13	37	248	23	83
Sir Fynwy	1	0	0	58	3	21	106	8	44
Casnewydd	1	0	1	143	17	34	242	35	68
Torfaen	1	0	0	144	4	15	214	8	29
Gorllewin Cymru	3	0	2	254	15	115	462	35	245
Sir Gaerfyrddin	1	0	2	104	5	75	216	10	164
Ceredigion	1	0	0	48	7	15	73	18	32
Sir Benfro	1	0	0	102	3	25	173	7	49
Gogledd Cymru	6	1	6	535	14	223	731	26	475
Conwy	1	1	2	81	8	54	94	17	119
Sir Ddinbych	1	0	1	52	2	56	95	1	125
Sir y Fflint	1	0	1	122	0	55	155	0	118
Gwynedd	1	0	0	136	2	9	190	3	17
Wrecsam	1	0	2	84	0	28	109	0	51
Ynys Môn	1	0	0	60	2	21	88	5	45
Gorllewin Morgannwg	2	0	0	352	18	61	520	33	116
Castell-nedd Port Talbot	1	0	0	127	12	29	192	22	56
Abertawe	1	0	0	225	6	32	328	11	60
Powys	1	0	0	87	3	11	144	7	24
Y tu allan i Gymru	0	0	3	0	0	0	0	0	0
CYFANSWM	22	5	17	2,545	178	815	4,027	364	1,732

Tabl 1b - Cafeatau data ac esboniad

Nodiadau ar gasglu data

Data a ddarperir gan AGC

- 1.2 Mae AGC yn cofrestru AFAs (y gellir eu darparu gan sefydliadau er-elw neu sefydliadau nid-er-elw) yng Nghymru ond nid gwasanaethau maethu a ddarperir gan yr awdurdodau lleol. Mae tri darparwr maethu er-elw sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru ond sy'n darparu gwasanaethau yng Nghymru ac sydd, felly, wedi'u cofrestru yng Nghymru.

Data a ddarperir gan Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant

- 1.3 I gael ei ddata, gofynnodd Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant i bob AFA ar system yr Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant (CCSR) ddarparu gwybodaeth am nifer yr aelwydydd maethu cofrestredig ac uchafswm nifer y lleoedd. Darparodd 20 o'r 22 AFA cofrestredig ddata. Mae data yn dangos nifer yr aelwydydd sy'n maethu yn ôl ardal yr awdurdod lleol y maent yn byw ynddi. Nid oedd data ar gael ar gyfer y 2 AFA sy'n weddill gan nad ydynt wedi'u cofrestru ar y system CCSR.

Data a ddarperir gan Maethu Cymru

- 1.4 Mae'r ffigurau a ddarperir yn ffigurau ar gyfer yr holl ofalwyr maeth a lleoedd cymeradwy'r awdurdod lleol, h.y. cyfanswm y gofalwyr maeth prif ffrwd cymeradwy a phersonau cysylltiedig (perthnasoedd) cymeradwy.¹ Mae'r ffigurau ar gael ar sail awdurdod lleol.
- 1.5 Archwilir dadansoddiad llawn o aelwydydd a data lleoliadau Maethu Cymru yn llawnach o dan dabl 1c ac adran 3.

Nifer y gwasanaethau gofal maeth cofrestredig

- 1.6 Er bod gan bob awdurdod lleol ei wasanaeth maethu ei hun, mae pob un ohonynt yn gweithio gyda'i gilydd o fewn rhwydwaith cenedlaethol Maethu Cymru. Mae 44 o ddarparwyr gofal maeth cofrestredig ledled Cymru. O'r rhain, bydd nifer gwasanaethau maethu'r awdurdodau lleol, felly, bob amser yn aros yn uchafswm o 22, yn unol â'r nifer o awdurdodau lleol.

¹ Mae personau cysylltiedig sy'n ofalwyr maeth yn cael eu cyfarwyddo gan y llys fel rheol ac yn darparu lleoedd ar gyfer plant penodol, fel arfer yn rhan o deulu / rhwydwaith y plentyn, ac nid ydynt ar gael at ddefnydd cyffredinol.

- 1.7 Ar 30 Medi 2025, roedd 5 AFA nid-er-elw (neu 11% o'r cyfanswm a gofrestrwyd) a 17 (neu 39% o'r cyfanswm a gofrestrwyd) o AFA er-elw. Yn yr adroddiad blaenorol roedd 6 AFA nid-er-elw ac 16 o wasanaethau er-elw ar 31 Mawrth 2025.
- 1.8 Yn ôl rhanbarth, Gogledd Cymru sydd â'r nifer uchaf o wasanaethau maethu er-elw, sef 6 neu 35% o'r holl wasanaethau, ar draws Conwy, Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Ddinbych. Roedd 4 (neu 24%) o wasanaethau maethu er-elw hefyd wedi'u lleoli yn ardal awdurdod lleol Caerdydd.

Aelwydydd gofal maeth ac uchafswm nifer y lleoedd gofal maeth

- 1.9 Mae 3,538 o aelwydydd maethu a 6,123 o leoedd yng Nghymru. Mae'r awdurdodau lleol yn cynnwys 2,545 (72%) o'r aelwydydd hynny, a 4,027 (66%) o leoedd. O'r 993 o aelwydydd AFA sy'n weddill, roedd 815 (23%) yn aelwydydd cofrestredig er-elw ac roedd 178 (5%) yn aelwydydd nid-er-elw eraill. Yn yr un modd, o'r 2,096 o leoedd AFA sy'n weddill, roedd 1,732 (neu 28%) yn rhai er-elw a'r 364 arall (neu 6%) yn rhai nid-er-elw.
- 1.10 O gofio'r diffyg data maethu'r awdurdodau lleol yn yr adroddiad blaenorol, dim ond ar lefel genedlaethol y gellir gwneud cymariaethau yn yr ardal hon. Maent yn dangos gostyngiad bach ar y 2,609 o leoedd (o 64, neu 2%) a 4,144 o leoedd (o 117, neu 3%) a adroddwyd ar 31 Mawrth 2025. Bu gostyngiad bach hefyd mewn darpariaeth AFA nid-er-elw, sef gostyngiad o 11 (neu 6%) o aelwydydd, a 24 (hefyd 6%) o leoedd. Bu cynnydd mewn darpariaeth er-elw, er hynny, o 21 (neu 2%) o aelwydydd a 39 (2%) o leoedd.

Arsylwadau lleol

- 1.11 Yn ôl rhanbarth, Gwent sy'n darparu'r nifer uchaf o aelwydydd a lleoedd gofal maeth sydd wedi'u cofrestru gydag awdurdodau lleol (gyda 564 neu 22% o aelwydydd a 934 neu 23% o leoedd). Fe'i dilynir gan Ogledd Cymru (535 neu 21% o aelwydydd a 731 neu 18% o aelwydydd).
- 1.12 O ran ôl troed awdurdodau lleol, mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth gofal maeth sydd wedi'i chofrestru gydag awdurdodau lleol wedi'i lleoli yn Rhondda Cynon Taf (241 o aelwydydd, 413 o leoedd), Abertawe (225 o aelwydydd, 328 o leoedd) a Chaerdydd (222 o aelwydydd, 404 o leoedd). Roedd yr ardaloedd hyn yn cyfrif am tua 9% o'r holl aelwydydd a oedd wedi'u cofrestru gydag awdurdodau lleol a rhwng 8-10% o leoedd ledled Cymru.
- 1.13 Mae'r gyfran fwyaf o aelwydydd gofal maeth er-elw (223) a lleoedd (475) yn byw ar draws Gogledd Cymru. Gyda'i gilydd, mae'r rhanbarth hwn yn cyfrif am 27% o'r holl leoedd er-elw, gyda chrynodiadau ar draws Conwy gyda 54 o aelwydydd,

119 o leodd, Sir Ddinbych gyda 56 o aelwydydd, 125 o leodd a Sir y Fflint gyda 55 o aelwydydd a 118 o leodd. Mae pob un o'r ardaloedd hynny yn cyfrif am 7% o gyfanswm nifer yr aelwydydd a'r lleodd er-elw.

- 1.14 Mae'r gyfran fwyaf o'r ddarpariaeth gofal maeth cofrestredig nad yw'n ddarpariaeth awdurdod lleol i'w gweld yn ardal awdurdod lleol Caerdydd gyda 28 (16%) o aelwydydd nid-er-elw AFA a 61 (neu 17%) o leodd AFA, ochr yn ochr â 109 o aelwydydd er-elw (13%) a 244 (14%) o leodd. Mae Sir Gaerfyrddin hefyd yn cynnwys llawer o ddarpariaeth gofal maeth er-elw, gyda 75 (neu 9%) o aelwydydd a 164 (neu 10%) o leodd.

Gwasanaethau llety diogel

- 1.15 Ar 30 Medi 2025 ac yn unol â'r sylwadau yn yr adroddiad blaenorol, mae un gwasanaeth llety diogel wedi'i gofrestru yng Nghymru. Mae hwn yn cael ei weithredu gan awdurdod lleol ac mae wedi'i gofrestru ar gyfer uchafswm o 14 o leodd. Er hynny, mae'r cyfleuster hwn yn gwasanaethu'r ystad ddiogel yng Nghymru a Lloegr ac felly mae'n derbyn atgyfeiriadau a phlant o bob rhan o'r ddwy wlad.

Tabl 1c: Aelwydydd a lleoedd maethu sydd wedi'u cofrestru gydag awdurdodau lleol wedi'u rhannu yn ôl darpariaeth brif ffrwd a darpariaeth gan bersonau cysylltiedig (ar 30 Medi).

Ffynhonnell: Maethu Cymru

Cyfanswm rhanbarthol ac ardal awdurdod lleol	Aelwydydd maethu			Lleoedd Maethu		
	Maethu Prif Ffrwd	Personau cysylltiedig	Cyfanswm yr Aelwydydd (*gweler tabl 1b)	Maethu Prif Ffrwd	Personau cysylltiedig	Cyfanswm y Lleoedd (*gweler tabl 1b)
Caerdydd a'r Fro	162	181	343	269	298	567
Caerdydd	114	108	222	210	194	404
Bro Morgannwg	48	73	121	59	104	163
Cwm Taf Morgannwg	203	207	410	352	317	669
Pen-y-bont ar Ogwr	62	64	126	91	84	175
Merthyr Tudful	25	18	43	53	28	81
Rhondda Cynon Taf	116	125	241	208	205	413
Gwent	374	190	564	670	264	934
Blaenau Gwent	48	26	74	83	41	124
Caerffili	79	66	145	162	86	248
Sir Fynwy	43	15	58	83	23	106
Casnewydd	116	27	143	207	35	242
Torfaen	88	56	144	135	79	214
Gorllewin Cymru	152	102	254	313	149	462
Sir Gaerfyrddin	87	17	104	186	30	216
Ceredigion	20	28	48	36	37	73
Sir Benfro	45	57	102	91	82	173
Gogledd Cymru	296	239	535	428	303	731
Conwy	47	34	81	52	42	94
Sir Ddinbych	36	16	52	74	21	95
Sir y Fflint	66	56	122	81	74	155
Gwynedd	74	62	136	123	67	190
Wrecsam	37	47	84	52	57	109
Ynys Môn	36	24	60	46	42	88
Gorllewin Morgannwg	221	131	352	331	189	520
Castell-nedd Port Talbot	95	32	127	139	53	192
Abertawe	126	99	225	192	136	328
Powys	58	29	87	104	40	144
CYFANSWM	1,466	1,079	2,545	2,467	1,560	4,027

Tabl 1c - Esboniad data

- 1.16 Fel yn achos tabl 1b ar 30 Medi 2025, mae'r awdurdodau lleol yn darparu 2,545 o aelwydydd maethu a 4,027 o leoedd. Mae 1,079 neu 42% o'r aelwydydd hynny a 1,560 neu 39% o'r lleoedd hynny, o fewn gofal maeth 'personau cysylltiedig' tra bo'r holl ddarpariaeth AFA o fewn maethu prif ffrwd.
- 1.17 Mae Maethu Cymru yn adrodd bod nifer y cymeradwyaethau prif ffrwd yn 2025/26 wedi cynyddu 6% o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2024/25. Nodwyd hefyd fod lefel y golled net o ofalwyr maeth prif ffrwd wedi arafu ers sefydlu Maethu Cymru; gostyngodd y golled net aelwydydd prif ffrwd o -11 yn 2024/25 i -8 yn 2025/26.
- 1.18 Mae lefel y gweithgarwch asesu ar gyfer personau cysylltiedig sy'n ofalwyr maeth yn dal yn sylweddol uwch nag ar gyfer gofalwyr maeth prif ffrwd. Mae'r asesiadau hyn yn aml yn cael blaenoriaeth uwch nag asesiadau prif ffrwd ond nid ydynt yn darparu lleoedd sydd ar gael yn gyffredinol i bob plentyn. Mae nifer y lleoedd hyn yn parhau i dyfu. Yn ystod 6 mis cyntaf eleni, roedd cynnydd net o 28 o aelwydydd a 43 o leoedd.
- 1.19 Nododd y dadansoddiad yn Adran 1 a'r data yn Nhabl 1b fod Gwent yn cynnwys y nifer uchaf o aelwydydd a lleoedd gofal maeth sydd wedi'u cofrestru gyda'r awdurdodau lleol. Mae Tabl 1c yn nodi mai Gwent sy'n darparu'r gyfran fwyaf o ofal maeth prif ffrwd sydd wedi'i gofrestru gyda'r awdurdodau lleol, gyda 374 (26%) o'r aelwydydd hynny a 670 (27%) o'r lleoedd hynny.
- 1.20 O ran y ddarpariaeth faethu fwy penodol, Rhondda Cynon Taf sy'n darparu'r crynodiad uchaf o ofal gan bersonau cysylltiedig (125 o aelwydydd, 205 o leoedd neu 12% a 13% o'r ffigurau cenedlaethol yn y drefn honno). Mae tabl 1c yn dangos crynodiadau uchel o ofal maethu prif ffrwd ar draws Caerdydd (114 o aelwydydd, 210 o leoedd), Abertawe (126 o aelwydydd, 192 o leoedd), Rhondda Cynon Taf (116 o aelwydydd, 208 o leoedd) a Chasnewydd (116 o aelwydydd, 207 o leoedd), gyda phob ardal yn cynwys rhwng 8-9% o'r ddarpariaeth. Ceredigion sy'n cadw'r swm isaf o ofal prif ffrwd (20 o aelwydydd, 36 o leoedd, sef rhyw 1% o'r cyfansymiau cenedlaethol).

Adran 2 – Ymunwyr â'r farchnad ac ymadawyr - cartrefi plant

Tabl 2a: Gwasanaethau cartrefi plant cofrestredig sy'n ymuno â'r farchnad ac yn ymadael â'r farchnad rhwng 1 Ebrill 2025 a 30 Medi 2025

Ffynhonnell: AGC

	Nifer y gwasanaethau cofrestredig sy'n ymuno â'r farchnad			Nifer y gwasanaethau cofrestredig sy'n ymadael â'r farchnad		
Cyfanswm rhanbarthol ac ardal awdurdod lleol	Nid-er-elw - awdurdod lleol	Nid-er-elw - arall	Er-elw	Nid-er-elw - awdurdod lleol	Nid-er-elw - arall	Er-elw
Caerdydd a'r Fro	2	0	2	0	0	1
Caerdydd	2	0	1	0	0	1
Bro Morgannwg	0	0	1	0	0	0
Cwm Taf Morgannwg	0	1	0	0	0	0
Pen-y-bont ar Ogwr	0	1	0	0	0	0
Merthyr Tudful	0	0	0	0	0	0
Rhondda Cynon Taf	0	0	0	0	0	0
Gwent	4	0	9	0	0	2
Blaenau Gwent	1	0	1	0	0	1
Caerffili	0	0	2	0	0	0
Sir Fynwy	2	0	2	0	0	1
Casnewydd	1	0	2	0	0	0
Torfaen	0	0	2	0	0	0
Gorllewin Cymru	1	0	2	0	0	1
Sir Gaerfyrddin	0	0	1	0	0	0
Ceredigion	1	0	0	0	0	0
Sir Benfro	0	0	1	0	0	1
Gogledd Cymru	2	0	5	0	0	2
Conwy	2	0	2	0	0	0
Sir Ddinbych	0	0	0	0	0	0
Sir y Fflint	0	0	3	0	0	2
Gwynedd	0	0	0	0	0	0
Wrecsam	0	0	0	0	0	0
Ynys Môn	0	0	0	0	0	0
Gorllewin Morgannwg	0	0	2	0	0	0
Castell-nedd Port Talbot	0	0	0	0	0	0
Abertawe	0	0	2	0	0	0
Powys	0	1	1	0	0	1
CYFANSWM	9	2	21	0	0	7

Tabl 2a - Cafeatau data ac esboniad

- 2.1. Mae Tabl 2a yn dangos nifer y gwasanaethau cartrefi plant cofrestredig a wnaeth ymuno â'r farchnad ac ymadael â'r farchnad yng Nghymru rhwng 1 Ebrill 2025 a 30 Medi 2025.

Nifer y gwasanaethau cartrefi plant cofrestredig sy'n ymuno â'r farchnad

- 2.2. Mae'r tabl yn dangos bod cyfanswm o 32 o wasanaethau cartrefi plant wedi ymuno â'r farchnad, gyda 21 (neu 66%) yn rhai er-elw ac 11 (neu 34%) yn rhai nid-er-elw. O'r gwasanaethau nid-er-elw hynny, roedd 9 wedi'u cofrestru i awdurdod lleol a 2 ddim.
- 2.3. Rhanbarth Gwent welodd y nifer uchaf o wasanaethau cofrestredig yn ymuno â'r farchnad gyda 13 o wasanaethau newydd (4 gwasanaeth nid-er-elw newydd yr awdurdod lleol a 9 gwasanaeth er-elw newydd, sef 41% o'r holl ddarpariaeth). Roedd gwasanaethau er-elw newydd eu cofrestru wedi'u lleoli ym mhob un o 5 awdurdod lleol Gwent, ac ym mhob un ohonynt heblaw Caerffili a Thorfaen cafodd ymunwyr eu cofrestru i'r awdurdod lleol.
- 2.4. Mewn mannau eraill roedd niferoedd uchel o ymunwyr yng Ngogledd Cymru. Yn ardal leol Conwy cafwyd 2 wasanaeth awdurdod lleol a 2 wasanaeth er-elw, a chofnodwyd 3 o ymunwyr er-elw eraill yn Sir y Fflint. Dim ond 2 wasanaeth nid-er-elw heb fod yn awdurdod lleol a gofrestrwyd yn ystod y cyfnod, ym Mhowys ac ym Mhen-y-bont ar Ogwr.
- 2.5. Mae'r data hwn yn cyferbynnu â'r cyfnod adrodd blaenorol, a welodd lai o wasanaethau (25) yn ymuno â'r farchnad. Ar y pryd, roedd 21 o'r ymgeiswyr hynny yn rhai er-elw gyda'r 4 arall yn wasanaethau nid-er-elw a oedd wedi'u cofrestru gyda'r awdurdodau lleol.

Nifer y lleoedd cartrefi plant cofrestredig sy'n ymadael â'r farchnad

- 2.6. Ymadawodd 7 gwasanaeth cartrefi plant (pob un yn wasanaeth er-elw) â'r farchnad. Roedd 2 o'r rhain yn Sir y Fflint, 1 yr un ym Mlaenau Gwent, Caerdydd, Sir Fynwy, Sir Benfro a Phowys. Mae'r niferoedd hyn yn nodi cynnydd o'i gymharu â'r rhai a gofnodwyd yn ystod y cyfnod blaenorol o 6 mis lle'r ymadawodd 4 darparwr (pob un er elw) â'r farchnad.

Tabl 2b: Lleoedd Cartrefi Plant Cofrestredig a ychwanegwyd at y farchnad ac a dynnwyd o'r farchnad rhwng 1 Ebrill 2025 a 30 Medi 2025

Ffynhonnell: AGC

Cyfanswm rhanbarthol ac ardal awdurdod lleol	Nifer y lleoedd cartrefi plant cofrestredig sydd wedi'u hychwanegu at y farchnad			Nifer y lleoedd cartrefi plant cofrestredig sydd wedi'u tynnu o'r farchnad		
	Nid-er-elw - awdurdod lleol	Nid-er-elw - arall	Er-elw	Nid-er-elw - awdurdod lleol	Nid-er-elw - arall	Er-elw
Caerdydd a'r Fro	5	0	8	0	0	3
Caerdydd	5	0	4	0	0	3
Bro Morgannwg	0	0	4	0	0	0
Cwm Taf Morgannwg	0	1	0	0	0	0
Pen-y-bont ar Ogwr	0	1	0	0	0	0
Merthyr Tudful	0	0	0	0	0	0
Rhondda Cynon Taf	0	0	0	0	0	0
Gwent	19	0	23	0	0	2
Blaenau Gwent	4	0	2	0	0	1
Caerffili	0	0	8	0	0	0
Sir Fynwy	9	0	4	0	0	1
Casnewydd	6	0	6	0	0	0
Torfaen	0	0	3	0	0	0
Gorllewin Cymru	3	0	8	0	0	3
Sir Gaerfyrddin	0	0	4	0	0	0
Ceredigion	3	0	0	0	0	0
Sir Benfro	0	0	4	0	0	3
Gogledd Cymru	5	0	15	0	0	2
Conwy	5	0	8	0	0	0
Sir Ddinbych	0	0	0	0	0	0
Sir y Fflint	0	0	7	0	0	2
Gwynedd	0	0	0	0	0	0
Wrecsam	0	0	0	0	0	0
Ynys Môn	0	0	0	0	0	0
Gorllewin Morgannwg	0	0	6	0	0	0
Castell-nedd Port Talbot	0	0	0	0	0	0
Abertawe	0	0	6	0	0	0
Powys	0	4	1	0	0	7
CYFANSWM	32	5	61	0	0	17

Tabl 2c: Cynnydd/colledion net gwasanaethau a lleoedd cartrefi plant cofrestredig rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2025

Ffynhonnell: AGC

	Gwasanaethau ieuchyd plant			Cyfanswm y lleoedd cofrestredig		
Cyfanswm rhanbarthol ac ardal awdurdod lleol	Nid-er-elw - awdurdod lleol	Nid-er-elw - arall	Er-elw	Nid-er-elw - awdurdod lleol	Nid-er-elw - arall	Er-elw
Caerdydd a'r Fro	2	0	1	5	0	5
Caerdydd	2	0	0	5	0	1
Bro Morgannwg	0	0	1	0	0	4
Cwm Taf Morgannwg	0	1	0	0	1	0
Pen-y-bont ar Ogwr	0	1	0	0	1	0
Merthyr Tudful	0	0	0	0	0	0
Rhondda Cynon Taf	0	0	0	0	0	0
Gwent	4	0	7	19	0	21
Blaenau Gwent	1	0	0	4	0	1
Caerffili	0	0	2	0	0	8
Sir Fynwy	2	0	1	9	0	3
Casnewydd	1	0	2	6	0	6
Torfaen	0	0	2	0	0	3
Gorllewin Cymru	1	0	1	3	0	5
Sir Gaerfyrddin	0	0	1	0	0	4
Ceredigion	1	0	0	3	0	0
Sir Benfro	0	0	0	0	0	1
Gogledd Cymru	2	0	3	5	0	13
Conwy	2	0	2	5	0	8
Sir Ddinbych	0	0	0	0	0	0
Sir y Fflint	0	0	1	0	0	5
Gwynedd	0	0	0	0	0	0
Wrecsam	0	0	0	0	0	0
Ynys Môn	0	0	0	0	0	0
Gorllewin Morgannwg	0	0	2	0	0	6
Castell-nedd Port Talbot	0	0	0	0	0	0
Abertawe	0	0	2	0	0	6
Powys	0	1	0	0	4	-6
CYFANSWM	9	2	14	32	5	44

Tablau 2b a 2c - Esboniad data

- 2.7. Mae Tabl 2b yn dangos nifer y lleoedd cartrefi plant cofrestredig a ychwanegwyd at y farchnad ac a dynnwyd o'r farchnad yng Nghymru. Mae Tabl 2c yn darparu cymhariaeth cynnydd/colledion net o leoedd cofrestredig a chartrefi sy'n ymuno â'r farchnad ac yn ymadael â'r farchnad. Ar gyfer cydestun, gall gwasanaethau gael sawl lle fel rhan o'u cofrestriad, a dyna pam mae'r ffigurau o fewn y tabl hwn yn fwy na'r rhai yn Nhabl 2a.
- 2.8. Ychwanegwyd 98 o leoedd a thynnwyd 17 o leoedd o'r farchnad. O'r lleoedd newydd hynny, roedd 61 (neu 62%) yn rhai er-elw. Roedd 32 (33%) yn lleoedd awdurdodau lleol a 5 (5%) yn lleoedd nid-er-elw eraill. Roedd pob un o'r lleoedd a ymadawodd â'r farchnad yn lleoedd er-elw.

Lleoedd cartrefi plant newydd sy'n ymuno â'r farchnad

- 2.9. Yn ôl rhanbarth, Gwent sy'n cynnwys y gyfran fwyaf o leoedd newydd mewn cartrefi plant, gyda 19 (59%) o holl leoedd yr awdurdod lleol a 23 (38%) o leoedd er-elw. O'r 19 o leoedd newydd, roedd 9 yn Sir Fynwy, 6 yng Nghasnewydd a 4 ym Mlaenau Gwent. O'r 23 o leoedd er-elw newydd, cofnododd Caerffili 8, Casnewydd 6, Sir Fynwy 4, Torfaen 3 a Blaenau Gwent 2.
- 2.10. Gwelodd Gogledd Cymru 15 o leoedd er-elw newydd mewn cartrefi plant (25% o'r holl leoedd er-elw newydd yng Nghymru), a 5 lle newydd awdurdod lleol (16% o leoedd er-elw newydd yng Nghymru). Roedd y rhain wedi'u crynhoi yng Nghonwy (8 lle er-elw, 5 lle awdurdod lleol) a Sir y Fflint (7 lle er-elw). Ymhlith yr ardaloedd eraill a welodd leoedd newydd roedd Caerdydd (5 lle awdurdod lleol, 4 lle er-elw), Abertawe (6 lle er-elw), Bro Morgannwg Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin (hefyd 4 lle er-elw yr un).
- 2.11. Yn gyffredinol, mae'r 98 o leoedd ychwanegol mewn cartrefi plant yn dangos cynnydd o 72% ar y 57 o leoedd a gofnodwyd ledled Cymru dros y 6 mis blaenorol. Gyda'i gilydd, mae'r 37 o leoedd nid-er-elw, sydd wedi'u cofrestru naill ai i awdurdod lleol neu'n annibynnol, yn gynydd o 640% o'i gymharu â'r 5 a gofnodwyd yn y cyfnod adrodd blaenorol o 6 mis.

Lleoedd cartrefi plant sy'n ymadael â'r farchnad

- 2.12. Mae pob un o'r 17 o leoedd cartrefi plant a ymadawodd â'r farchnad yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn rhai er-elw. Mae'r ymadawiadau er-elw hyn wedi digwydd ym Mhowys (7), Sir y Fflint (2), Caerdydd (3) a Sir Benfro (3), ac 1 yr un yn Sir Fynwy a Blaenau Gwent. Powys oedd yr unig ardal i ddangos

gostyngiad net mewn lleoedd sy'n ymuno â'r farchnad neu'n ymadael â'r farchnad (-6: 1 yn ymuno, 7 yn ymadael).

- 2.13. Mae'r 17 o leoedd mewn cartrefi plant sy'n ymadael â'r farchnad yn gynnydd (143%) ar y 7 lle er-elw a ymadawodd yn ystod y cyfnod blaenorol o 6 mis. Er hynny, mae'r diffyg lleoedd nid-er-elw sy'n ymadael â'r farchnad yn y cyfnod adrodd hwn yn cyferbynnu â'r 4 ymadawiad nid-er-elw a gofnodwyd yn ystod y cyfnod adrodd blaenorol (a oedd yn cyfrif am 36% o'r ymadawiadau ar y pryd).

Adran 3 – Ymunwyr ac ymadawyr â'r farchnad – maethu

Gwasanaethau maethu sy'n ymuno â'r farchnad ac yn ymadael â'r farchnad

Ffynhonnell: AGC - rhwng 1 Ebrill 2025 – 30 Medi 2025

- 3.1 Ni wnaeth unrhyw wasanaethau maethu ymuno â'r farchnad nac ymadael â hi rhwng 1 Ebrill 2025 a 30 Medi 2025, yr un fath â'r cyfnod adrodd blaenorol.

Aelwydydd maethu sy'n ymuno â'r farchnad ac yn ymadael â'r farchnad

- 3.2 Mae'r data ar gyfer yr adroddiad hwn yn cynnwys y gweithgarwch lleoli ar gyfer gofalwyr maeth prif ffrwd yr awdurdodau lleol a phersonau cysylltiedig (a elwir hefyd yn berthynas) sy'n ofalwyr maeth. Adroddir y ddwy elfen ar wahân.

Tabl 3a: Aelwydydd maethu cofrestredig awdurdodau lleol (yn ôl math o ddarpariaeth) sy'n ymuno â'r farchnad ac yn ymadael â'r farchnad rhwng 1 Ebrill 2025 a 30 Medi 2025.

Ffynhonnell: Maethu Cymru

Cyfanswm rhanbarthol ac ardal awdurdod lleol	Aelwydydd Maethu Prif Ffrwd			Personau Cysylltiedig Aelwydydd		
	<i>yn ymuno â'r farchnad</i>	<i>yn ymadael â'r farchnad</i>	<i>newidiadau net</i>	<i>yn ymuno â'r farchnad</i>	<i>yn ymadael â'r farchnad</i>	<i>newidiadau net</i>
Caerdydd a'r Fro	7	9	-2	27	28	-1
Caerdydd	7	9	-2	20	17	3
Bro Morgannwg	0	0	0	7	11	-4
Cwm Taf Morgannwg	9	15	-6	23	25	-2
Pen-y-bont ar Ogwr	4	3	1	8	8	0
Merthyr Tudful	1	2	-1	0	5	-5
Rhondda Cynon Taf	4	10	-6	15	12	3
Gwent	16	27	-11	45	38	7
Blaenau Gwent	3	2	1	7	6	1
Caerffili	3	4	-1	16	6	10
Sir Fynwy	6	3	3	4	5	-1
Casnewydd	3	9	-6	8	5	3
Torfaen	1	9	-8	10	16	-6
Gorllewin Cymru	9	3	6	29	10	19
Sir Gaerfyrddin	3	1	2	7	6	1
Ceredigion	2	1	1	8	2	6
Sir Benfro	4	1	3	14	2	12
Gogledd Cymru	18	10	8	20	18	2
Conwy	4	1	3	1	1	0
Sir Ddinbych	1	2	-1	3	2	1
Sir y Fflint	4	2	2	1	4	-3
Gwynedd	4	4	0	6	0	6
Wrecsam	3	1	2	6	9	-3
Ynys Môn	2	0	2	3	2	1
Gorllewin Morgannwg	13	11	2	8	5	3
Castell-nedd Port Talbot	2	3	-1	6	4	2
Abertawe	11	8	3	2	1	1
Powys	0	4	-4	4	3	1
CYFANSWM	72	79	-7	156	127	29

Tabl 3b: Lleoedd maethu cofrestredig awdurdodau lleol (yn ôl math o ddarpariaeth) sy'n ymuno â'r farchnad ac yn ymadael â'r farchnad rhwng 1 Ebrill 2025 a 30 Medi 2025.

Ffynhonnell: Maethu Cymru

Cyfanswm rhanbarthol ac ardal awdurdod lleol	Maethu Prif Ffrwd Lleoedd			Personau cysylltiedig Lleoedd		
	<i>yn ymuno â'r farchnad</i>	<i>yn ymadael â'r farchnad</i>	<i>newidiadau net</i>	<i>yn ymuno â'r farchnad</i>	<i>yn ymadael â'r farchnad</i>	<i>newidiadau net</i>
Caerdydd a'r Fro	12	12	0	35	37	-2
Caerdydd	12	12	0	27	24	3
Bro Morgannwg	0	0	0	8	13	-5
Cwm Taf Morgannwg	13	23	-10	33	35	-2
Pen-y-bont ar Ogwr	4	4	0	8	11	-3
Merthyr Tudful	2	3	-1	0	9	-9
Rhondda Cynon Taf	7	16	-9	25	15	10
Gwent	19	39	-20	68	63	5
Blaenau Gwent	3	2	1	12	6	6
Caerffili	4	7	-3	21	9	12
Sir Fynwy	8	3	5	15	20	-5
Casnewydd	3	14	-11	9	5	4
Torfaen	1	13	-12	11	23	-12
Gorllewin Cymru	10	5	5	43	14	29
Sir Gaerfyrddin	3	2	1	14	7	7
Ceredigion	2	2	0	10	2	8
Sir Benfro	5	1	4	19	5	14
Gogledd Cymru	27	15	12	27	20	7
Conwy	4	1	3	2	1	1
Sir Ddinbych	2	4	-2	3	2	1
Sir y Fflint	6	2	4	1	4	-3
Gwynedd	6	6	0	9	0	9
Wrecsam	3	2	1	8	11	-3
Ynys Môn	6	0	6	4	2	2
Gorllewin Morgannwg	15	15	0	12	7	5
Castell-nedd Port Talbot	3	4	-1	10	5	5
Abertawe	12	11	1	2	2	0
Powys	0	6	-6	5	3	2
CYFANSWM	96	115	-19	223	179	44

Tablau 3a a 3b - Esboniad data

Maethu Prif Ffrwd

- 3.3 Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, gwelwyd gostyngiad net yn y ddarpariaeth faethu brif ffrwd a oedd wedi'i chofrestru gydag awdurdod lleol o 7 aelwyd a 19 o leoedd. Yn y cyfamser, gwelodd y ddarpariaeth faethu gan bersonau cysylltiedig gynnydd net o 29 o aelwydydd a 44 o leoedd.
- 3.4 Rhanbarth Gwent welodd y gostyngiad net mwyaf mewn maethu prif ffrwd gyda gostyngiad o 11 o aelwydydd ac 20 o leoedd. Ar lefel awdurdod lleol, gwelodd Torfaen y gostyngiad mwyaf o unrhyw awdurdod lleol, sef 8 aelwyd a 12 o leoedd, ac yna Casnewydd (6 aelwyd, 11 o leoedd).
- 3.5 Gogledd Cymru (8 aelwyd, 12 o leoedd) a Gorllewin Cymru (6 aelwyd, 5 lle) welodd y cynnydd net rhanbarthol mwyaf. O fewn yr ardaloedd hynny, roedd Ynys Môn (2 aelwyd, 6 lle), Sir Benfro (3 aelwyd, 4 lle), Conwy (3 aelwyd, 3 lle) a Sir y Fflint (2 aelwyd, 4 lle) yn enghreifftiau lleol nodedig.

Personau cysylltiedig

- 3.6 Yng Ngorllewin Cymru y gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn darpariaeth sy'n ymwneud â gofal gan bersonau cysylltiedig (sef 19 o aelwydydd, 29 o leoedd). Y ddau ranbarth a welodd ostyngiad cyffredinol yn y ddarpariaeth oedd Caerdydd a'r Fro (1 aelwyd, 2 lle) a Chwm Taf Morgannwg (2 aelwyd, 2 lle).
- 3.7 Torfaen welodd y gostyngiad mwyaf o fewn ardal leol (6 aelwyd a 12 o leoedd) o ran darpariaeth sy'n ymwneud â gofal gan bersonau cysylltiedig. I'r gwrthwyneb, gwelwyd y cynnydd lleol mwyaf yn Sir Benfro (12 o aelwydydd, 14 lle) a Chaerffili (10 aelwyd, 12 o leoedd).

Tabl 3c: Aelwydydd maethu sydd wedi'u cofrestru gydag AFA sy'n ymuno â'r farchnad ac yn ymadael â'r farchnad rhwng 1 Ebrill 2025 a 30 Medi 2025.

Ffynhonnell: Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant

Cyfanswm rhanbarthol ac ardal awdurdod lleol	Aelwydydd maethu nid-er-elw			Aelwydydd maethu er-elw		
	<i>yn ymuno â'r farchnad</i>	<i>yn ymadael â'r farchnad</i>	<i>newidiadau net</i>	<i>yn ymuno â'r farchnad</i>	<i>yn ymadael â'r farchnad</i>	<i>newidiadau net</i>
Caerdydd a'r Fro	2	6	-4	12	4	8
Caerdydd	2	6	-4	11	3	8
Bro Morgannwg	0	0	0	1	1	0
Cwm Taf Morgannwg	2	5	-3	5	5	0
Pen-y-bont ar Ogwr	0	2	-2	2	2	0
Merthyr Tudful	0	0	0	0	1	-1
Rhondda Cynon Taf	2	3	-1	3	2	1
Gwent	3	6	-3	11	4	7
Blaenau Gwent	0	2	-2	2	0	2
Caerffili	2	1	1	2	0	2
Sir Fynwy	0	0	0	3	1	2
Casnewydd	1	3	-2	3	0	3
Torfaen	0	0	0	1	3	-2
Gorllewin Cymru	1	1	0	7	5	2
Sir Gaerfyrddin	0	0	0	4	1	3
Ceredigion	0	1	-1	0	0	0
Sir Benfro	1	0	1	3	4	-1
Gogledd Cymru	2	2	0	17	18	-1
Conwy	0	1	-1	4	3	1
Sir Ddinbych	1	0	1	7	4	3
Sir y Fflint	0	0	0	2	5	-3
Gwynedd	0	0	0	0	1	-1
Wrecsam	0	1	-1	2	2	0
Ynys Môn	1	0	1	2	3	-1
Gorllewin Morgannwg	1	1	0	6	3	3
Castell-nedd Port Talbot	1	1	0	1	1	0
Abertawe	0	0	0	5	2	3
Powys	0	1	-1	3	1	2
CYFANSWM	11	22	-11	61	40	21

Tabl 3c - Esboniad data

- 3.8 Mae pob lleoliad AFA yn faethu prif ffrwd, ac nid ydynt yn ymwneud â phersonau cysylltiedig. Nid yw'r data a gesglir yma yn rhan o broses ffurfiol neu reoleiddiedig, ond yn rhan o wybodaeth a gesglir gan Gonsortïwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant yn ei rhyngweithio ag AFA ac sy'n llywio cronfa ddata'r Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant (CCSR).
- 3.9 Mae'r data yn y tabl hwn yn seiliedig ar ymarfer croesgyfeirio rhwng 1 Ebrill 2025 a 30 Medi 2025 i nodi ymunwyr ac ymadael ar yr Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant (CCSR). Er bod y tabl yn nodi nifer yr aelwydydd sydd wedi ymadael â'r farchnad ac ymuno â'r farchnad, nid yw'n cyfrif am newidiadau i nifer y lleoedd o fewn yr aelwydydd hynny yn ystod y cyfnod.
- 3.10 Caiff dull wedi'i fireinio a all gyfrif am newidiadau capasiti mewn darpariaeth sydd eisoes yn bodoli ei ddatblygu ar gyfer yr adroddiad nesaf.

Aelwydydd maethu sy'n ymuno â'r farchnad ac yn ymadael â'r farchnad

- 3.11 Ledled Cymru, ymunodd 11 o aelwydydd maethu nid-er-elw â'r farchnad yn y cyfnod adrodd ac ymadawodd 22. I'r gwrthwyneb ymunodd 61 o aelwydydd maethu er-elw â'r farchnad ac ymadawodd 40, gan arwain at gynnydd net o 21 o aelwydydd er-elw.
- 3.12 Y rhanbarthau a welodd golled net o ran aelwydydd maethu nid-er-elw oedd Caerdydd a'r Fro (4 aelwyd), Cwm Taf Morgannwg (3), Gwent (3) a Phowys (1). Roedd crynodiadau lleol o'r colledion net hynny yn cynnwys Caerdydd (colled o 4), Pen-y-bont ar Ogwr, Blaenau Gwent a Chasnewydd (colled o 2 gan bob ardal).
- 3.13 Rhanbarth Caerdydd a'r Fro a gofnododd y cynnydd net mwyaf (8) o aelwydydd maethu er-elw, gyda 12 o aelwydydd yn ymuno â'r farchnad a 4 yn ymadael. Gwent gofnododd y cynnydd net uchaf o'r math hwn o ddarpariaeth, gydag 11 yn ymuno a 4 yn ymadael, gan arwain at gynnydd net o 7 aelwyd er-elw dros yr un cyfnod. Cofnodwyd y nifer fwyaf o ymunwyr er-elw yn gyffredinol yng Ngogledd Cymru, gyda 17 o ymunwyr, ond hefyd fe welodd 18 o aelwydydd yn ymadael â'r farchnad dros yr un cyfnod.
- 3.14 Yn lleol cofnodwyd y newidiadau mwyaf yng Nghaerdydd, gydag 11 o aelwydydd newydd er-elw a 3 o ymadawyr yn y cyfnod hwn. Dim ond Merthyr Tudful, Ceredigion a Gwynedd a oedd heb gofnodi unrhyw aelwydydd er-elw newydd.

Adran 4 – Sefydlogrwydd Lleoedd

Tabl 4a: Nifer y lleoliadau yn ystod y flwyddyn y cafodd plant a oedd yn derbyn gofal brofiad ohonynt ar 31 Mawrth 2024 (fel nifer a chanran) *

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (drwy StatsCymru)

Cyfanswm rhanbarthol ac ardal awdurdod lleol	Nifer y plant sydd ag 1 lleoliad	Nifer y plant sydd â 2 leoliad	Nifer y plant sydd â 3+ o leoliadau	Canran y plant sydd ag 1 lleoliad	Canran y plant sydd â 2 leoliad	Canran y plant sydd â 3+ o leoliadau
Caerdydd a'r Fro	970	270	130	71	20	9
Caerdydd	735	210	90	71	20	9
Bro Morgannwg	235	60	40	70	18	12
Cwm Taf Morgannwg	945	180	80	78	15	7
Pen-y-bont ar Ogwr	280	65	25	76	18	6
Merthyr Tudful	165	25	10	83	13	4
Rhondda Cynon Taf	500	90	45	79	14	7
Gwent	1,160	280	135	74	18	9
Blaenau Gwent	160	30	10	80	15	5
Caerffili	355	85	35	75	18	7
Sir Fynwy	150	30	20	75	15	10
Casnewydd	240	75	35	69	21	10
Torfaen	255	60	35	72	18	10
Gorllewin Cymru	475	120	55	73	18	8
Sir Gaerfyrddin	185	50	20	72	20	8
Ceredigion	105	25	5	75	20	5
Sir Benfro	185	45	30	71	17	12
Gogledd Cymru	1,035	240	140	73	17	10
Conwy	155	50	20	69	23	8
Sir Ddinbych	145	45	25	68	21	11
Sir y Fflint	170	35	30	73	14	13
Gwynedd	225	35	20	80	13	7
Wrecsam	220	55	35	71	18	11
Ynys Môn	120	20	10	81	13	6
Gorllewin Morgannwg	560	130	50	76	18	7
Castell-nedd Port Talbot	195	40	15	78	16	6
Abertawe	365	90	35	75	18	7
Powys	170	45	30	69	18	13
CYFANSWM	5,315	1,265	620	74	18	9

*Mae niferoedd awdurdodau lleol unigol wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Cyfrifir cyfansymiau a chanrannau rhanbarthol yn seiliedig ar ffigurau awdurdodau lleol wedi'u talgrynnu tra bo cyfanswm Cymru yn seiliedig ar niferoedd heb eu talgrynnu. Noder nad yw'r cyfanswm y canrannau yn symio i 100% oherwydd talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

Nodiadau:

- 1.1. Nid yw'r data hwn wedi'i ddiweddarau yn dilyn cynhyrchu'r adroddiad diwethaf ym mis Ebrill 2025. Y rheswm dros hyn yw mai dim ond unwaith y flwyddyn y cesglir y data hwn gan Lywodraeth Cymru. Mae data wedi'i ddiweddarau hyd at 31 Mawrth 2025 yn cael ei goladu ar hyn o bryd ac fe ddylai gael ei gynnwys yn y fersiwn nesaf o'r adroddiad.
- 4.2 Mae'r cymariaethau data yn canolbwyntio ar ddau fesur allweddol sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Mae'r mesur cyntaf yn olrhain cyfanswm nifer y plant a oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth 2024 sydd â phrofiad o naill ai un, dau neu dri neu ragor o leoliadau yn ystod y flwyddyn. Yr ail fesur yw'r ganran o'i chymharu â chyfanswm nifer y plant sy'n derbyn gofal yn yr ardal. Mae ffigurau'r awdurdodau lleol (ond nid canrannau) yn cael eu talgrynnu i'r 5 agosaf at ddibenion datgelu tra bo canrannau'n cael eu cyfrifo o ddata heb ei dalgrynnu. Mae ffigurau a chanrannau rhanbarthol yn seiliedig ar ddata awdurdodau lleol wedi'i dalgrynnu.
- 4.3 Mae'r metrig hwn yn hanfodol ar gyfer deall lleoliadau a sefydlogrwydd y farchnad. Mae plant sy'n profi lleoedd lluosog yn aml yn wynebu teimladau cryfach o wahanu a cholled, gan ei gwneud yn anoddach iddynt ffurfio cydberthnasau ystyrlon â'u gofawyr. Mae'r gallu i fonitro'r symudiadau hyn yn hanfodol ar gyfer gwella canlyniadau, gan fod ymchwil yn awgrymu bod plant sy'n symud lleoliad nifer o weithiau'n llai tebygol o gyflawni'n academaidd ac yn gwneud yn waeth o ran eu canlyniadau seicolegol, cymdeithasol ac iechyd.
- 4.4 Mae meddu ar amrywiaeth o opsiynau ar gyfer lleoli plentyn yn briodol yn allweddol i sefydlogrwydd a pharhauster. Mae plant sy'n dod yn blant sy'n derbyn gofal yn dioddef teimladau o wahanu a cholled, hyd yn oed os ydynt wedi cael eu trin yn wael cyn derbyn gofal. Gall plant sy'n mynd ymlaen i gael lleoliadau niferus weld y teimladau hyn yn gwaethygu.
- 4.5 Er hynny, nid yw pob symudiad o fewn y system yn negyddol. Mae rhai symudiadau'n angenrheidiol i ddiwallu anghenion y plentyn a hefyd wrth ystyried eu dymuniadau a'u teimladau eu hunain. Mewn rhai achosion, bernir bod symudiad o ddau leoliad neu ragor yn arwydd iach o gynllunio gofal amserol yn hytrach na symudiadau di-nod. Gall cyfran isel iawn o symudiadau, i'r gwrthwyneb, nodi diffyg dewis o leoliad i ganiatáu i blant symud yn gadarnhaol fel y nodir yn eu cynlluniau gofal ac i ddiwallu eu hanghenion.

Adran 5 – Cynigion Eiriolaeth

Tabl 5a: Niferoedd sy'n manteisio ar y cynnig gweithredol o eiriolaeth yn ystod y flwyddyn 2023-24

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (drwy StatsCymru)

Cyfanswm rhanbarthol ac ardal awdurdod lleol	Cynigion gweithredol a wnaed yn ystod y flwyddyn	Cynigion gweithredol a wnaed a lle y darparwyd Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol
Caerdydd a'r Fro	341	205
Caerdydd	265	172
Bro Morgannwg	76	33
Cwm Taf Morgannwg	275	214
Pen-y-bont ar Ogwr	71	64
Merthyr Tudful	60	54
Rhondda Cynon Taf	144	96
Gwent	734	367
Blaenau Gwent	97	45
Caerffili	202	149
Sir Fynwy	98	24
Casnewydd	171	109
Torfaen	166	40
Gorllewin Cymru	141	94
Sir Gaerfyrddin	96	59
Ceredigion	..	..
Sir Benfro	45	35
Gogledd Cymru	922	115
Conwy	494	38
Sir Ddinbych	118	27
Sir y Fflint	156	4
Gwynedd	21	6
Wrecsam	118	30
Ynys Môn	15	10
Gorllewin Morgannwg	153	127
Castell-nedd Port Talbot	62	55
Abertawe	91	72
Powys	485	223
CYFANSWM	3,051	1,345

Nodiadau:

- 5.1 Fel gyda thabl 4a ar sefydlogrwydd lleoliadau, nid yw'r data hwn wedi'i ddiweddarau yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad diwethaf er ei fod bellach wedi'i gyflwyno yn ôl rhanbarth yn ogystal ag yn ôl awdurdod lleol fel yn achos ardaloedd eraill. Y rheswm dros hyn yw mai dim ond unwaith y flwyddyn y cesglir y data hwn gan Lywodraeth Cymru. Mae data wedi'i ddiweddarau hyd at 31 Mawrth 2025 yn cael ei goladu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru ac fe ddylai gael ei gynnwys yn y fersiwn nesaf o'r adroddiad.
- 5.2 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn pennu bod cynnig gweithredol o eiriolaeth yn cael ei wneud i bob plentyn a pherson ifanc sy'n derbyn gofal a phob plentyn sy'n destun ymholiadau amddiffyn plant sy'n arwain at gynhadledd amddiffyn plant.
- 5.3 Mae gan blant sydd mewn gofal hawl hefyd i gael mynediad at eiriolaeth broffesiynol annibynnol drwy gydol yr amser y maent yn derbyn gofal. Gall y plentyn, y gweithiwr cymdeithasol neu'r Swyddog Adolygu Annibynnol ofyn am atgyfeiriad at wasanaeth eirioli proffesiynol annibynnol i gefnogi'r plentyn i leisio ei farn fel rhan o'r broses cynllunio gofal. Cyfeirir at hyn fel 'eiriolaeth sy'n seiliedig ar faterion'.

"Cynigion Gweithredol" yn ystod y flwyddyn

- 5.4 Mae'r mesur cyntaf yn y tabl uchod yn helpu'r awdurdodau lleol i asesu'r defnydd o wasanaethau eiriolaeth, gan hwyluso gwell cynllunio a chomisiynu yn achos y gwasanaethau hynny yn y dyfodol. Mae gwasanaethau eiriolaeth yn cynorthwyo unigolion i dderbyn gofal a chymorth ac yn sicrhau bod eu barn yn cael ei chyfleu yn gywir waeth beth yw barn yr eiriolwr neu eraill.
- 5.5 Fe'i diffinnir fel rhannu gwybodaeth am hawl statudol plentyn neu berson ifanc mewn rhai amgylchiadau i gael mynediad at wasanaeth eirioli proffesiynol annibynnol.

"Cynigion Gweithredol" a wnaed a lle y darparwyd Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol

- 5.6 Mae'r ail fesur yn y tabl hwn yn canolbwyntio ar gyfanswm nifer y "Cynigion Gweithredol" o eiriolaeth yn ystod y flwyddyn lle y darparwyd eiriolwr proffesiynol annibynnol. Mae'r metrig hwn hefyd yn galluogi'r awdurdodau lleol i asesu faint sy'n manteisio ar wasanaethau eiriolaeth ac yn helpu Llywodraeth Cymru i fonitro'r eiriolaeth a ddarperir i blant sydd â hawl i'w chael.

- 5.7 Mae'r mesurau hyn yn rhoi golwg gwerthfawr ar y sefydlogrwydd a'r cymorth a ddarperir i blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru, gan dynnu sylw at bwysigrwydd monitro symudiadau lleoliad a defnyddio gwasanaethau eiriolaeth i wella canlyniadau i'r plant hyn.
- 5.8 Mae'r wybodaeth a ddarperir yn cyfeirio yn unig at ble mae cynnig gweithredol yn cael ei wneud a lle mae eiriolwr annibynnol yn cael ei ddarparu. Nid yw plant na chawsant gynnig gweithredol yn cael eu cynnwys hyd yn oed os darparwyd eiriolwr proffesiynol annibynnol ar eu cyfer wedyn. Yn yr un modd, ni fydd plant mewn gofal sydd wedi cael eu hatgyfeirio ar gyfer eiriolaeth annibynnol fel rhan o'r broses cynllunio gofal (eiriolaeth ar sail materion/ymwelydd annibynnol) yn cael eu cynnwys yn y ffigurau hyn.
- 5.9 Ar hyn o bryd, nid ydym yn gallu dadansoddi'r data a gesglir gan Lywodraeth Cymru i wahaniaethu rhwng cynigion gweithredol a wneir i blant sy'n derbyn gofal a chynigion gweithredol a wneir i blant sy'n destun ymchwiliadau amddiffyn plant.
- 5.10 Nid yw'r data ond yn coladu gwybodaeth am y cynnig gweithredol sy'n benodol ac sy'n digwydd ar yr adeg y mae plentyn yn dechrau derbyn gofal neu yn destun ymchwiliad amddiffyn plant. Nid yw'n cynnwys gwybodaeth am faint o blant sy'n derbyn gofal a allai fod wedi cael cynnig ymwelydd annibynnol, gwasanaeth eiriolaeth ymweld preswyl neu eiriolaeth sy'n seiliedig ar faterion.
- 5.11 Mae'r Fforwm Cenedlaethol sy'n goruchwyllo'r Cynnig Gweithredol yn cynnwys awdurdodau lleol a darparwyr eiriolaeth ac mae gwaith ar y gweill o dan y fforwm hwn i fireinio ac aeddfedu data ymhellach a fydd yn darparu gwybodaeth fwy manwl am fanteisio ar y cynnig gweithredol. Nod y gwaith hwn yw cynyddu ein dealltwriaeth o pam na fydd plant yn manteisio o bosibl ar y cynnig gweithredol a nodi lle y gallai fod angen gwneud gwaith codi ymwybyddiaeth mewn awdurdodau lleol i gynyddu cyfraddau atgyfeirio.